

# Awdurdod Parc Cenedlaethol

28 Gorffennaf 2021

Yn Bresennol: Cynghorydd P Harries (Cadeirydd)

Cynghorydd P Baker BEM, Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd K Doolin, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Mrs J James, Cynghorydd M James, Mr G Jones, Cynghorydd PJ Morgan, Dr R Plummer, Cynghorydd A Wilcox, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland.

*[Ymunodd y Cynghorydd R Owens â'r cyfarfod yn ystod ystyried cofnodion y Pwyllgor Personél (gweler Cofnod 6(iv)).]*

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 11.15am; 11.25am – 12.55pm; 1.25pm - 2.00pm)

## 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd M Evans a'r Cynghorydd P Kidney.

## 2. Datgan Buddiannau

Datganodd y Cynghorydd P Baker bod ganddo fuddiant personol yn adroddiad 32/21 Cymorth i Ironman Cymru; datganodd y Cynghorydd P Harries a Dr M Havard Baker bod ganddynt fuddiant personol yn adroddiad 35/21 Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro; datganodd Dr R Plummer bod ganddo fuddiant personol yn ystod y drafodaeth ar gofnodion y Pwyllgor Adolygu Gweithredol ynglŷn â Pharciau Cenedlaethol Morol. Parhaodd pob un yn bresennol yn y cyfarfod.

## 3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd (Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a'r Cyfarfod Cyffredin) a gynhaliwyd ar yr 16<sup>eg</sup> o Fehefin 2021 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**Penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a'r Cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar yr 16<sup>eg</sup> o Fehefin 2021.

## 4. Materion yn codi

### (a) Siarter Cymru ar Gynorthwyo a Datblygu Aelodau

Dywedwyd bod yr Awdurdod wedi cyflwyno ei gais am Siarter Uwch Cynorthwyo a Datblygu Aelodau, a llongyfarchwyd y Tîm Gwasanaethau Democrataidd.

**Nodwyd.**



## 5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Pleser gan y Cadeirydd oedd cyhoeddi ei fod wedi gallu mynychu digwyddiadau yn bersonol yn ddiweddar, ac wedi cwrdd â Huw Evans wrth iddo gerdded Llwybr yr Arfordir, mynychu rhagolwg o arddangosfa Amgueddfa Genedlaethol Cymru gan Mike Perry yn Oriel y Parc, a'r seremoni ailagor swyddogol yn Llys-y-frân a fynychwyd gan Vaughan Gethin. Hefyd roedd wedi annerch yn lansiad dŵr glân CLEAN (Rhwydwaith Gweithredu Amgylcheddol ar Lefel Dalgylch) a gynhaliwyd yng Nghastell Henllys. Roedd y Cadeirydd hefyd wedi mynychu nifer o gyfarfodydd ar-lein, gyda Chadeiryddion Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru, Cyngor Partneriaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a'r Fforwm Gwledig. Yn ogystal, roedd wedi mynychu Seminar Cyngorau Cymuned/Tref/Dinas yr Awdurdod lle trafodwyd y ddogfen Strategaeth.

### Nodwyd.

## 6. Adroddiadau cyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau i'w hystyried/er gwybodaeth:

- (i) Y Pwyllgorau Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2021, 16 Mehefin 2021 ac ar 21 Mehefin 2021;
- (ii) Y Pwyllgor Ieuenctid a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2021;
- (iii) Y Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2021; a'r
- (iv) Pwyllgor Personnel a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2021.

Roedd yr Aelodau wedi'u calonogi gan waith y Pwyllgor Ieuenctid. Nodwyd bod y Pwyllgor yn dymuno ymgysylltu ymhellach ag Aelodau'r Awdurdod, a'r bwriad oedd trefnu cyfarfod anffurfiol yn yr hydref.

O ran cofnodion y Pwyllgor Adolygu Gweithredol, dywedodd y Prif Weithredwr y gofynnwyd i Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod, TIAA, gael golwg ar Gofrestr Risg yr Awdurdod, ac y byddai gweithdy yn cael ei drefnu yn yr hydref. O ran y posibilrwydd o sefydlu Parc Cenedlaethol Morol, roedd y mater wedi cael ei godi gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, ond hyn oedd y cam cyntaf mewn proses hirdymor, a byddai diweddariadau pellach yn cael eu cyflwyno maes o law.

Wrth ystyried cofnodion y Pwyllgor Personél, gofynnwyd am ddiweddariad ar y cyfarfod gyda Chadeirydd/Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol i drafod y Cylch Gorchwyl. Dywedodd y Prif Weithredwr y bu'n rhaid aros nes bod y Cadeirydd/Dirprwy Gadeirydd wedi'u hethol yng nghyfarfod diweddar y Pwyllgor; fodd bynnag, byddai cyfarfod yn cael ei drefnu yn ystod yr



wythnosau nesaf. O ran y Gwasanaeth Clust i Wrandu a drafodwyd gan y Pwyllgor, holodd yr Aelodau a oedd unrhyw gyswllt wedi'i wneud â'r rhai oedd wedi gwirfoddoli. Dywedodd y Rheolwr AD bod aelod o'r staff wedi rhoi gwybod iddo ei fod wedi defnyddio'r gwasanaeth a bod y cymorth wedi bod yn ddefnyddiol. Yn olaf, gofynnwyd am ddiweddariad ar y Cynllun Kickstart. Dywedodd y Rheolwr AD bod problemau wedi codi i gael pobl i fanteisio ar y cynllun oherwydd pryderon ynghylch COVID a natur tymor byr y lleoliad, heb unrhyw sicrwydd o gael swydd tymor hir. Fodd bynnag, roedd dau unigolyn cymwys wedi gwneud cais i'r cynllun yn ystod yr wythnosau diwethaf, ac y byddai trefniadau yn cael eu gwneud i'w cyfweld.

**Penderfynwyd** mabwysiadu/derbyn cofnodion y Pwyllgorau a enwir uchod.

*[Ymddiheurodd y Cynghorydd M Williams ei fod yn gorfod gadael y cyfarfod cyn y bleidlais ar yr eitem ganlynol, ond roedd yn gobeithio dychwelyd cyn i'r cyfarfod ddod i ben.]*

## **7. Adroddiad ISA260 i'r rhai sy'n gyfrifol am Lywodraethu**

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Mr Deryck Evans o Archwilio Cymru, a eglurodd bod yr Archwilydd wedi llunio'r Adroddiad ISA260 yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio. Bwriad yr Archwilydd oedd cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni, unwaith y byddai copi wedi'i lofnodi o'r Cyfrifon a Llythyr Cynrychiolaeth wedi dod i law. Fodd bynnag, roedd rhai camddatganiadau heb eu cywiro yn yr adroddiad oedd rhaid eu dwyn i sylw'r Aelodau, yn ogystal â rhai camddatganiadau oedd bellach wedi eu cywiro. Prin iawn fyddai effaith y camddatganiadau hyn ar wariant y gwasanaeth a byddent yn cael eu datrys yn ystod y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

Diolchodd Mr Evans i'r swyddogion am eu gwaith caled yn paratoi'r cyfrifon ac yn hwyluso'r archwiliad, yn enwedig o ystyried effaith COVID-19. Dywedodd bod yr Awdurdod yn un o ychydig o Awdurdodau ledled Cymru oedd wedi cymeradwyo eu cyfrifon erbyn diwedd mis Gorffennaf yn unol â'r dyddiad cau statudol. Diolchodd y Rheolwr Cyllid yn ei dro i Archwilio Cymru am y modd amserol yr oeddent wedi cynnal yr archwiliad oedd wedi caniatáu i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn y dyddiad cau.

Llongyfarchodd yr Aelodau y swyddogion ar lwyddo i gynhyrchu'r cyfrifon o fewn y terfyn amser, a gofynnwyd i'w diolch gael ei drosglwyddo i aelodau'r Tîm Cyllid. Gofynnwyd a oedd unrhyw wersi i'w dysgu o ran y camddatganiadau nad oedd wedi'u cywiro. Eglurodd y Rheolwr Cyllid bod y cyngor ar y cynllun Ffyrlo a dderbyniwyd oddi wrth Cyllid a Thollau EM fis Mehefin 2020 yn anghywir ac mai ond ym mis Mehefin 2021 yr oedd hyn wedi dod i'r amlwg; nid oedd y materion eraill yn faterion



sylweddol. Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Aelodau, cadarnhawyd bod y rhesymau pam na chywirwyd y camddatganiadau wedi'u trafod gydag Archwilio Cymru ac y byddai'r swyddogion yn cynnwys nodyn byr i egluro hyn.

**Penderfynwyd:**

- a) derbyn Adroddiad ISA260 gan Archwilio Cymru; a
- b) chymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon 2020/21.

**8. Adroddiad Blynyddol ar Gyflawni Amcanion Llesiant (Cynllun Gwella Rhan 2) 2020/21**

Atgoffwyd yr Aelodau bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i nodi ei Amcanion Llesiant ac i ddangos sut mae'r amcanion hyn yn cyfrannu at y saith o Nodau Llesiant Llywodraeth Cymru. O dan y ddeddfwriaeth, roedd rhaid i gyrrff cyhoeddus gyhoeddi adroddiad blynyddol yn dangos y cynnydd yr oeddent wedi'i wneud wrth gyflawni eu hamcanion. Hefyd rhaid oedd dangos sut oeddent wedi dilyn y 5 ffordd o weithio o dan yr egwyddorion datblygu cynaliadwy, sef Tymor Hir, Atal, Integreiddio, Cydweithio a Chynnwys. Ar gyfer y flwyddyn 2020/21, roedd yn dal yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi Cynllun Gwella Rhan 2 erbyn yr 31<sup>ain</sup> o Hydref o dan y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru).

Y ddogfen gerbron yr Awdurdod oedd ei adroddiad blynyddol ar y cynnydd a wnaed yn erbyn ei Amcanion Llesiant, a'i Gynllun Gwella Rhan 2. Er mwyn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb a bioamrywiaeth yn cael eu prif ffrydio ar draws yr Awdurdod, y ddogfen hon hefyd oedd adroddiad blynyddol yr Awdurdod ar gydraddoldeb, ac yn un elfen o adroddiadau'r Awdurdod ar sut y cydymffurfiodd â'r ddyletswydd A6 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Nodwyd bod yr adroddiad yn hir, ond bod hyn yn amlygu'r ystod eang o waith a gweithgareddau a gyflawnwyd gan yr Awdurdod. Serch hynny, roedd ffeithlun cryno o'r cyflawniadau yn erbyn yr Amcanion Llesiant wedi'i gynnwys.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r cynnydd yn erbyn y rhaglen waith yng Nghynllun Corfforaethol ac Adnoddau'r Awdurdod ar gyfer y flwyddyn 2020/21. Atgoffwyd yr Aelodau bod y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2020/21 wedi'i rannu'n ddwy ran a'i ail-drefnu i fynd i'r afael ag effaith y pandemig COVID-19. Roedd yr adran gyntaf yn seiliedig ar y blaenoriaethau tymor byr a'r tymor canolig oedd yn canolbwyntio ar yr ymateb i COVID-19 a'r gwaith o gynllunio adferiad, tra bod y blaenoriaethau a'r camau gweithredu tymor hir a gynlluniwyd yn wreiddiol ar gyfer 2020/21 oedd yn parhau i fod yn berthnasol yn cael eu cadw yn yr ail adran. Yn ôl y disgwyl, roedd rhai gweithgareddau o fewn ffrydiau



gwaith wedi cael eu datblygu yn ystod 2020/21. Fodd bynnag, roedd nifer ohonynt, yn arbennig y rhai oedd yn golygu cyswllt wyneb yn wyneb rhwng unigolion, wedi'u heffeithio gan godi'r cyfyngiadau a'r rheoliadau neu eu hail-gyflwyno neu gan yr Awdurdod yn gorfod addasu neu ail flaenoriaethu ei waith i ganolbwyntio ar ymateb i COVID-19.

Llongyfarchodd yr Aelodau y Cydlynnydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth ar adroddiad cynhwysfawr a thrylwyr oedd yn amlygu gwaith rhagorol yr Awdurdod cyfan, a gofynnwyd am eu diolch gael ei drosglwyddo i'r staff. Er eu bod yn cymeradwyo defnyddio lliw a graffeg, awgrymwyd ei bod yn werth ystyried crynodeb byr neu fodd arall o gyfleu'r cyflawniadau i amrywiol gynulleidfaoedd. Hefyd gofynnwyd a oedd yn fwriad i adolygu amcanion llesiant yr Awdurdod, ac atebodd y Prif Weithredwr y byddai hyn yn cael ei wneud yn dilyn cytuno ar y Strategaeth Lefel Uchel (gweler Cofnod 9) ac y byddai'n destun adroddiadau pellach i'r Awdurdod yn yr hydref.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar gyflawni'r Amcanion Llesiant (Cynllun Gwella Rhan 2) 2020/21.

*[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.15 a 11.25am.]*

## **9. Cytuno ar Strategaeth Lefel Uchel i'r Awdurdod**

Atgoffwyd yr Aelodau y cytunwyd yng nghyfarfod mis Mai o'r Awdurdod i gynnal ymarferiad ymgynghori ar y drafft o Strategaeth Lefel Uchel. Cyhoeddwyd y Strategaeth ddrafft ar wefan yr Awdurdod a chrëwyd arolwg drwy ddefnyddio'r llwyfan Survey Monkey. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad drwy gyhoeddi datganiad i'r wasg, drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol yr Awdurdod, drwy gysylltu â'n partneriaid allweddol, a'i ddosbarthu i aelodau'r grwpiau mewnol megis y Pwyllgor Ieuenctid a'r Fforwm Gwirfoddolwyr. Yn ogystal, roedd seminar wedi'i chynnal gyda chynrychiolwyr Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned.

Derbyniwyd cyfanswm o 197 o ymatebion, ac roedd yr adroddiad yn crynhoi canlyniadau'r ymgynghoriad. Er nad oedd pob sylw yn gadarnhaol, roedd y mwyafrif yn gefnogol ar y cyfan.

Gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo'r Strategaeth Lefel Uchel a rhoi sylwadau ar y 19 canlyniad a nodwyd i gyflawni'r strategaeth, ac roedd 14 ohonynt yn benodol i'r 4 blaenoriaeth yn ychwanegol at 5 canlyniad trawsbynciol fyddai'n effeithio ar holl waith yr Awdurdod.

Roedd yr Aelodau yn canmol eglurder y pedair 'C' oedd yn cynnwys blaenoriaethau'r strategaeth, a natur gryno yr adroddiad ar un dudalen. Rhoddwyd sylwadau manwl ar yr amcanion, gan nodi'n benodol y dylai'r cyfeiriad at dwristiaeth gyfeirio at dwristiaeth gynaliadwy, a



chytunodd y Prif Weithredwr i ystyried y sylwadau hyn wrth symud ymlaen.

**Penderfynwyd:**

- a) nodi'r ymatebion i'r ymgynghoriad;
- b) cytuno ar y Strategaeth Lefel Uchel a'i ddefnyddio fel sail i waith yr Awdurdod ar y strategaeth hon o fis Ebrill 2022 ymlaen.

*[Cyflwynodd Dr R Heath-Davies a'r Cynghorydd K Doolin eu hymddiheuriad a gadael y cyfarfod yn ystod ystyried yr eitem ganlynol.]*

**10. Cynlluniau Gweithredu i Gefnogi Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol**

Atgoffwyd yr Aelodau bod Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2020-2024 wedi'i fabwysiadu ar yr 11eg o Ragfyr 2019 a bod y swyddogion wedi ymrwmo i baratoi a chyhoeddi cyfres o gynlluniau gweithredu i gefnogi'r cynllun fyddai'n nodi ymatebion cyfredol ac arfaethedig yr Awdurdod i'r heriau polisi allweddol a glustnodwyd yn y Cynllun Rheoli. Roedd tri cynllun gweithredu wedi'u cymeradwyo gan yr Awdurdod hyd yn hyn, a chyflwynwyd y rhai ar gyfer lechyd a Lles a Hamdden Gynaliadwy a Rheoli Ymwelwyr i'w cymeradwyo.

Roedd y cynlluniau gweithredu hyn wedi cael eu drafftio yn dilyn ymgynghori â staff yr Awdurdod a sefydliadau allanol, ac yn cymryd i ystyriaeth yr amcanion llesiant corfforaethol a chenedlaethol a'r mesurau sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â Tirweddau i Bawb, a'r Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Benfro.

Roedd yr Aelodau yn falch o weld bod swyddogion arweiniol yn cael eu clustnodi ar gyfer pob un o'r cynlluniau gweithredu, a gofynnwyd sut fyddai'r cynlluniau gweithredu yn cael eu gwireddu yn rhaglenni gwaith y staff unigol. Eglurodd y swyddogion y byddai'r camau gweithredu yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau ac amcanion tîm ar gyfer unigolion a glustnodwyd mewn Adolygiadau Gwaith a Llesiant, a'u monitro drwy ddangosyddion perfformiad. Nodwyd hefyd y byddai prosiectau yn cael eu datblygu i gyflawni camau gweithredu, gyda chynigion am gyllid a gyflwynir drwy brosesau mewnol yr Awdurdod. Roedd yr Aelodau hefyd yn gobeithio y gallai'r Awdurdod annog amrywiaeth yn ei ystyr ehangaf, gan weithio drwy'r celfyddydau a cherddoriaeth, er enghraifft, a chyfeiriodd y swyddogion at y gwaith yn Oriel y Parc a'r prosiect ymchwil Profiadau i Bawb oedd â'r nod o weithio gyda grwpiau lleol i glustnodi'r ffordd orau o ymgysylltu ag amrywiaeth o unigolion. Byddai'r pwynt hefyd yn cael ei godi gyda'r grŵp Cynllun Gweithredu ar Ymgysylltu mewnol.

O ran y Cynllun Gweithredu ar lechyd a Lles, gofynnwyd cwestiynau hefyd am gyfleoedd ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol a chyfleoedd i ymgysylltu ymhellach â'r Bwrdd lechyd, meddygon teulu a fferyllfeydd i gefnogi'r rhai sy'n gwella o salwch. Hefyd roedd yr Aelodau yn



cymeradwyo'r gwaith o gynnig cadeiriau olwyn traeth, a phwysleisiwyd pa mor bwysig oedd y gwasanaethau bws arfordirol, mentrau a glustnodwyd yn y Cynllun Gweithredu ar Hamdden Gynaliadwy a Rheoli Ymwelwyr.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu ar Iechyd a Lles a'r Cynllun Gweithredu ar Hamdden Gynaliadwy a Rheoli Ymwelwyr.

## 11. Cytuno i gefnogi Ironman Cymru 2022-2026

Atgoffwyd yr Aelodau bod Ironman Cymru wedi cael ei gynnal yn Ninbych-y-pysgod ers 2011 a bod yr Awdurdod, drwy weithio gyda chyrrff eraill, wedi rhoi cymorth ariannol bob blwyddyn i gynnal y digwyddiad. Er nad oedd yr Awdurdod yn cael budd uniongyrchol o'r cymorth hwn, roedd y digwyddiad yn hyrwyddo'r Parc Cenedlaethol i gynulleidfa oedd ar hyd a lled y byd, yn cefnogi busnesau yn Sir Benfro drwy ddenu ymwelwyr i'r ardal, ac yn cyfrannu at wella iechyd a lles y trigolion lleol.

Cynigiwyd bod y bartneriaeth o roi cymorth i'r digwyddiad yn parhau ar ôl 2022. Roedd Cyngor Sir Penfro (CSP) eisoes wedi cytuno i gefnogi'r digwyddiad, a gofynnwyd i'r Awdurdod gyfrannu £20,000 y flwyddyn am y pum mlynedd nesaf. Yn gyfnewid am hyn, byddai'r digwyddiad yn bodloni'r safon digwyddiadau cynaliadwy, byddai gan yr Awdurdod nifer y cytunir arno o logos ac eitemau hyrwyddo ar y cwrs, a byddai'n derbyn 4 lle am ddim yn y ras, fyddai'n cael eu trosglwyddo i Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i gefnogi eu hymdrechion codi arian.

Roedd yr Aelodau yn hapus i gefnogi'r cynnig, o ystyried bod y buddsoddiad gan yr Awdurdod yn rhesymol o gofio pa mor bwysig oedd y digwyddiad i'r sir gyfan. Mynegwyd pryder ynghylch ôl troed carbon y digwyddiad, gan fod cystadleuwyr a gwylwyr yn teithio o bell, ond roedd y symud i safon digwyddiadau cynaliadwy i'w groesawu. Tynnodd y Cyngorydd P Baker, sef Aelod Cabinet CSP ar gyfer Digwyddiadau Mawr, sylw at bwysigrwydd y drefn parcio a theithio i leihau llif y traffig ar ddiwrnod y digwyddiad, a dywedodd hefyd bod trafodaethau ar y gweill ynghylch gwell gwasanaethau trenau. Ychwanegodd y Prif Weithredwr y byddai'r Awdurdod yn parhau i weithio gyda CSP ac eraill i ysgogi buddion amgylcheddol yn ogystal â buddion iechyd a lles.

**Penderfynwyd** bod yr Awdurdod yn cefnogi Ironman Cymru am y cyfnod o 2022 i 2026 drwy gyfrannu £20,000 y flwyddyn.

*[Dychwelodd y Cyngorydd M Williams i'r cyfarfod adeg ystyried yr eitem ganlynol ond roedd wedi ymatal rhag pleidleisio.]*

## 12. Aelodaeth o Bwyllgorau a Chyrrff Allanol.

Atgoffwyd yr Aelodau y dywedwyd yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol ar 16 Mehefin 2021 y byddai aelodaeth y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu,



y Pwyllgor Cwynion a'r Pwyllgor Apeliadau yn cael eu cadarnhau unwaith y byddai Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion yr Awdurdod a Phwyllgorau perthnasol eraill wedi'u penodi. Roedd hyn bellach wedi digwydd ac roedd awgrym o gyfansoddiadau'r Pwyllgorau wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Dyweddodd un Aelod na fu achos yn ffodus iawn o orfod galw'r Pwyllgorau hyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond awgrymwyd y byddai'r Aelodau yn elwa o hyfforddiant cyn i'r cyfryw angen godi. Cytunodd y swyddogion y gellid trefnu hyn.

**Penderfynwyd** cadarnhau Aelodaeth y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, y Pwyllgor Cwynion a'r Pwyllgor Apeliadau fel y nodwyd yn yr adroddiad.

### 13. Digwyddiadau Corfforaethol

Roedd yr adroddiad yn nodi'r digwyddiadau hynny y gwahoddwyd Aelodau'r Awdurdod iddynt yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, a gofynnwyd i'r Aelodau gytuno i fynychu'r digwyddiadau hyn. Byddai manylion y digwyddiadau yn cael eu dosbarthu i'r holl Aelodau drwy'r e-bost, ynghyd â chais am iddynt ateb os oedd ganddynt ddiddordeb, a'r mynychwyr yn cael eu dewis ar sail y cyntaf i'r felin.

**Penderfynwyd** awdurdodi Aelodau i fynychu'r digwyddiadau fel a ganlyn:

- a) Cyrsiau Cenedlaethol ar Sefydlu Aelodau a gynhelir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol South Downs rhwng y 14<sup>eg</sup> a'r 16<sup>eg</sup> o Fedi 2021 (*Aelodau newydd fel rheol, neu'r rhai nad ydynt eto wedi cael y cyfle i fynychu Cwrs Sefydlu*);
- b) Cynhadledd Europarc ar-lein 6<sup>ed</sup> a'r 7<sup>fed</sup> o Hydref 2021 "Parks in the Spotlight: Powered by People, Inspired by Nature" (*hyd at 2 Aelod*).
- c) Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, dyddiad i'w gadarnhau (*1 neu 2 Aelod*).

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 12.55pm a 1.25pm.]

[Cyflwynodd y Cynghorydd S Yelland ei ymddiheuriad a gadawodd y cyfarfod. Dywedodd y Cynghorydd M James y byddai'n hwyr yn dychwelyd a chyrhaeddodd adeg ystyried yr eitem ganlynol.]

### 14. Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro - Adroddiad Effaith 2020-2021

Fel rhan o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, dywedwyd bod yr Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i rannu diweddariad





gyda'r Awdurdod o'r cynnydd a wnaed bob blwyddyn. Roedd yr Ymddiriedolaeth wedi lansio i'r cyhoedd fis Ebrill 2019, ac roedd yr adroddiad yn nodi'r uchafbwyntiau allweddol o 2020-21, yn ogystal ag edrych ymlaen at fentrau oedd ar y gweill ar gyfer 2021-22. Hefyd wedi'i atodi i'r adroddiad oedd Adroddiad Effaith Blyneddol yr Ymddiriedolaeth 2020-21 oedd yn amlinellu manylion y prosiectau yr oedd yr Ymddiriedolaeth wedi'u cefnogi gyda'r arian a godwyd ganddynt hyd yn hyn. Roedd Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth, Elsa Davies, wedi anfon ei hymddiheuriad oherwydd ymrwymiad blaenorol.

Gan ddiolch i'r swyddog am adroddiad clir, roedd yr Aelodau'n falch o weld y symiau a godwyd, ond gofynnwyd am ddadansoddiad o'r £61,548 a godwyd yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Eglurodd y Rheolwr Cyllid Allanol bod y rhoddwyr hynny oedd yn hapus i gael eu cydnabod wedi'u rhestru ar dudalen olaf yr Adroddiad Effaith. Fodd bynnag, dywedodd bod 68% o'r arian wedi dod o arian grant a'r arian a godwyd gan y sefydliad; 20% o godi arian corfforaethol; 10% o unigolion gwerth net uchel; a'r 5% sy'n weddill gan unigolion drwy gyfraniadau personol, nawdd a rhoddion. Eglurodd bod rhywfaint o'r £19,000 a godwyd ar gyfer yr apêl Gwyllt am Goetiroedd wedi'i gynnwys yn y swm hwnnw, ond bod rhywfaint wedi'i godi yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac y byddai hynny'n cael ei ddangos yng nghyfrifon 2021-22.

Gofynnodd Aelodau eraill am gymhariaeth ag Ymddiriedolaethau Parciau Cenedlaethol eraill ac a oedd yr Ymddiriedolaeth wedi archwilio'r posibilïadau o gael rhoddion mewn ewyllys. Atebodd y swyddog bod yr Ymddiriedolaeth ar y cyfan wedi cadw'n weddol debyg i elusennau eraill a sefydlwyd ar yr un amser, ond bod llawer yn dibynnu ar yr adnoddau a'r buddsoddiad ariannol a ymrwymwyd gan yr Awdurdodau perthnasol, yn ogystal â'r demograffeg a dwysedd poblogaeth yr ardal lle roeddent yn bodoli. Serch hynny, roedd pob elusen Parc Cenedlaethol yn cydweithio drwy rannu gwybodaeth a phrofiadau. O ran rhoddion mewn ewyllys, roedd yr Ymddiriedolaeth wrthi'n hyrwyddo hyn fel modd o gefnogi a diogelu'r Parc Cenedlaethol ac wedi partneru â Fairwill, sef llwyfan ysgrifennu ewyllys ar-lein, i hwyluso'r dull hwn o roi rhodd.

## **Nodwyd.**

### **15. Adolygu'r Cynllun Cyfranogiad y Cyhoedd yng nghyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu**

Atgoffwyd yr Aelodau y cytunwyd yng nghyfarfod yr Awdurdod ar yr 16<sup>eg</sup> o Fehefin 2021, ac yn dilyn gweithdy i'r Aelodau ar y pwnc, y byddai siarad cyhoeddus yn cael ei ganiatáu yn y cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor fyddai'n ystyried cais am gyfnod o 5 munud, ac y byddai'r un siaradwr yn cael caniatâd i siarad ar yr un cais am gyfnod o 3 munud mewn unrhyw gyfarfodydd dilynol os gohiriwyd y cais.



Yn ystod y drafodaeth yng nghyfarfod yr Awdurdod ar yr 16<sup>eg</sup> o Fehefin 2021, awgrymwyd nifer o newidiadau i'r ddogfen ganllaw, a phenderfynwyd newid y trefniant siarad cyhoeddus a bod y ddogfen ganllaw yn cael ei chyfeirio'n ôl i gyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol i'w hystyried. Roedd y swyddogion bellach wedi diwygio'r ddogfen ganllaw yn unol â sylwadau'r Aelodau, ac roedd y ddogfen ddiwygiedig wedi'i hatodi i'r adroddiad.

Gan nodi, yn ystod cyfarfod dilynol, y gofynnwyd i'r rhai oedd yn annerch y Pwyllgor beidio ag ailadrodd yr hyn yr oeddent wedi'i ddweud yn flaenorol, gofynnodd un Aelod am gadarnhad y byddai'r hyn oedd wedi cael ei ddweud wedi cael ei gofnodi yng nghofnodion y cyfarfod, ac felly byddai unrhyw un oedd wedi methu â mynychu'r ddau gyfarfod yn ymwybodol o'r holl bwyntiau a godwyd, a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc mai hyn oedd yn wir.

Gofynnodd Aelod arall am ystyried cynnwys cyfeiriad at y lleoliad y gallai unigolyn annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn y dyfodol, o gofio'r sefyllfa ddaeth i'r amlwg mewn cyfarfod diweddar o'r Pwyllgor hwnnw. Fodd bynnag, dylid trafod hyn gyda Chadeirydd y Pwyllgor, ac nid ei drafod y diwrnod hwnnw. Dywedodd y Prif Weithredwr bod Rhybudd o Gynnig wedi dod i law ar y pwnc hwnnw, ond bod y Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i hyn gael ei gyflwyno 10 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod, ac na dderbyniwyd y cynnig mewn pryd i'w drafod yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw. Felly byddai'r Rhybudd o Gynnig yn cael ei ddwyn gerbron y cyfarfod nesaf o'r Awdurdod.

Yn olaf, gofynnwyd bod unrhyw fersiwn o'r canllaw yn y dyfodol yn ystyried ail-eirio'r ail baragraff ar dudalen 322 o'r adroddiad "Dylai siaradwyr osgoi cyfeirio at faterion y tu allan i gylch gwaith ..." i "Ni ellir cymryd materion y tu allan i'r cylch gwaith ... i ystyriaeth". Hefyd bod y ddogfen yn cael ei dyddio a chynnwys rhif y fersiwn.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r newidiadau i'r ddogfen ganllaw ar Gyfranogiad y Cyhoedd mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu.

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 15 Medi 2021 heb eu diwygio.

